Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL

6 Mai, 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol |
| AWDUR: | Claire Incledon, Dirprwy Swyddog Monitro (dros dro) |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Adolygu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol (***Atodiad 1***).

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Mabwysiadu'r Cylch Gorchwyl.

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Rhaid i'r Is-bwyllgor weithredu'r rheolau a'r gweithdrefnau hynny fel y'u mabwysiadir gan y CBC ac a nodir yn y Cylch Gorchwyl – rhain yw'r pwerau sy'n cael eu dirprwyo i'r Is-bwyllgor. Rhaid i unrhyw ddiwygiad i'r telerau hyn gael ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Cymeradwyodd y Cyd-bwyllgor Corfforedig sefydlu'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol a'i aelodaeth, gan gynnwys hawliau pleidleisio, i gyflawni'r swyddogaeth o ddatblygu a chynhyrchu Cytundeb Cyflawni a Chynllun Datblygu Strategol ar gyfer y CBC. Er mai'r Is-bwyllgor sy'n cyflawni'r swyddogaeth o ddatblygu a pharatoi'r Cynllun, cedwir y pŵer i fabwysiadu neu adolygu gan y CBC yn unol â Rheoliad 15, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 (fel y'u diwygiwyd).

4.2. Mae'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol yn cynnwys 6 Aelod â phleidlais, sef deiliaid portffolio cynllunio pob un o'r Cynghorau Cyfansoddol, a Chadeirydd Parc Cenedlaethol Eryri.

4.3. Mae'r swyddogaethau fel y'u nodir yn y Cylch Gorchwyl wedi'u dirprwyo o'r CBC i'r Is-bwyllgor. Mae'r swyddogaethau yn adlewyrchu'r cyfrifoldebau fel y'u nodir yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021. Wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn, bydd angen i'r Is-bwyllgor weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a rhan-ddeiliaid eraill i gydlynu'r gwaith o ddatblygu a chynhyrchu Cynllun sy'n diwallu'r uchelgais strategol ar ran y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

4.4. Mae natur strategol swyddogaeth yr Is-bwyllgor yn darparu ar gyfer datblygu polisi ar sail ranbarthol gydag Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill. Rhan allweddol o'r gwaith cyflawni yw bod yr Is-bwyllgor yn rhoi cyngor strategol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Er mwyn monitro'r cynnydd hwn, bydd yr Is-bwyllgor yn darparu adroddiadau rheoli perfformiad chwarterol i'r CBC i gynnwys diweddariadau rheolaidd ar reoli adnoddau a datblygiad y Cynllun, gan ystyried ei rwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a dyletswyddau statudol eraill.

4.5. Tynnir sylw'r Aelodau at wall teipio ar y 7fed paragraff ar y dudalen gyntaf - disodlwch CDLl gyda CDS. Hefyd ar yr ail dudalen, 4ydd paragraff, disodlwch Rheoliad 27 gyda Rheoliad 40 - adroddiad monitro blynyddol.

4.6. Mae'r Is-grŵp yn cael ei gefnogi gan Grŵp Swyddogion Cynllunio (GSC) sydd wedi'i arwain gan swyddogion. Bydd y Grŵp Ymgynghorol hwn yn cael ei arwain gan swyddog o ba bynnag Gyngor sy'n cael ei gynrychioli drwy'r Cadeirydd etholedig. Bydd y swyddog arweiniol hwn yn cysylltu â'r Cadeirydd i roi gwybod iddynt am raglenni gwaith a chyflawni prosiectau, gyda chefnogaeth swyddogion o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Bydd y Grŵp Ymgynghorol yn cyfarfod yn rheolaidd i gydlynu cynllunio, datblygu a chyflawni'r rhaglenni a'r prosiectau perthnasol, ac i reoli adroddiadau i'r Is-bwyllgor. Ni all yr Is-bwyllgor ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau gwneud penderfyniadau i unrhyw is-grŵp o'r fath, ond gall, os yw'n dymuno, sefydlu is-grwpiau eraill neu grŵp gorchwyl a gorffen i gefnogi ei waith.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Rhoddir sylw i'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

---

ATODIADAU:

**Atodiad 1:** Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

"Mae'r adroddiad wedi'i baratoi gan y Dirprwy Swyddog Monitro. Nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

"Mae mabwysiadu Cylch Gorchwyl priodol yn gam allweddol yn natblygiad yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol, ac rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisiwyd. Gallaf gadarnhau nad yw mabwysiadu'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad ariannol ychwanegol."